

Effeithiolrwydd cofrestru gwarchod plant a'i oblygiadau o ran maethu preifat

SCIE

Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth

Gwell arfer ar sail gwell gwybodaeth

Ionawr 2003

Papur safbwynt SCIE: rhif 1

Awdur

Dr Lisa Bostock
Uwch ddadansoddydd ymchwil
SCIE
lisa.bostock@scie.org.uk
Ffôn: 020 7089 6840

Cynnwys

	Tudalen
Diolchiadau	2
Crynodeb gweithredol	3
1. Cyflwyniad	5
2. Argymhellion	5
Cofrestru fel dull diogelu sylfaenol	5
Cofrestru, proffesiynoldeb a chefnogaeth	5
Asesiadau a safonau	6
Diffiniad cyfreithiol ac amodau ar gyfer cofrestru	6
Ymgyrch ymwybyddiaeth	7
3. Sylfaen yr argymhellion	8
Elfennau tebyg	8
Gwahaniaethau	8
Natur newidiol cofrestru ac archwilio gwarchodwyr plant	8
Cofrestru gwarchodwyr plant ac ansawdd gofal plant	9
Gorfodi safonau	10
Cydymffurfiaeth â systemau rheoleiddio	10
Cynorthwyo gwarchodwyr plant cofrestredig	11
Gostyngiad yn niferoedd gwarchodwyr plant cofrestredig	11
Gwarchod plant anghofrestredig	12
Goblygiadau cofrestru i ofalwyr maeth preifat	13
4. Crynodeb o argymhellion	17
Cyfeiriadau	19
Atodiadau	
I Ymgynghoriad SCIE	22
II Ymgynghoriad SCIE	23

Diolchiadau

Hoffem gydnabod cyfraniad pawb a fu'n rhan o'r gwaith o gynhyrchu'r papur safbwynt hwn a diolch iddynt am eu hamser, eu hymroddiad a'u hanogaeth yn ystod yr ymgynghoriad.

Crynodeb gweithredol

PAPUR SAFBWYNT SCIE: CWMPAS A PHWRPAS

Mae'r papur hwn yn nodi safbwynt SCIE ar berthnasedd cofrestru gwarchod plant i faethu preifat ac ar a fyddai cofrestru maethu preifat yn cynorthwyo i ddiogelu plant. Mae'n seiliedig ar arolwg arbenigol ar y maes y cyfrannodd budd-ddeiliaid blaenllaw ato mewn ymgynghoriad.

Y TEBYGRWYDD Â GWARCHOD PLANT

Mae trefniadau gwarchod plant a maethu preifat wedi'u seilio ar ddewis rhieni. Mae'r ddau fath o warchod plant yn drefniadau preifat yn y bôn (am dâl) rhwng y rhiant a'r darparwr.

Fodd bynnag, tra bod gwarchod plant yn ymwneud yn bennaf â gosod plant yng ngofal rhywun heblaw'r prif gynhalwyr dros dro, mae plant maeth preifat yn parhau i dderbyn gofal parhaus eu darparwr gofal maeth. Felly mae maethu preifat yn cyfeirio at blant sy'n byw gyda rhywun heblaw eu rhieni, gwarchodwyr neu berthnasau agos eraill am 28 diwrnod neu fwy.

GOBLYGIADAU WRTH GOFRESTRU

Mae cymhlethdod trefniadau gofal maeth preifat yn golygu bod cofrestru yn debyg o fod wedi ei gefnogi'n well ac yn fwy perthnasol i rai grwpiau nag eraill

Mae trefniadau gofal maeth preifat yn cwmpasu dau grŵp o blant. Yn gyntaf, mae plant y mae eu rhieni neu ofalwyr maeth preifat yn fwy tebygol o ddiffinio eu hunain fel darparu neu ymrwymo i drefniadau gofal maeth preifat. Mae'r wybodaeth am y grŵp hwn wedi'i chyfyngu i'r trefniadau a wneir gan rieni o Orllewin Affrica sy'n gosod eu plant gan amlaf yng ngofal rhieni maeth preifat, gwyn. Fel gwarchodwyr plant, gall y grŵp hwn fod yn fwy parod i gymryd rhan mewn system gofrestru yn seiliedig ar oruchwyliaeth a chymorth.

Mae'r diffiniad cyfreithiol cyfredol hefyd yn gymwys i ail grŵp o blant sy'n byw dan amgylchiadau nad ydynt yn cael eu deall o reidrwydd fel gofal maeth preifat. Gall y sefyllfaoedd hyn gynnwys trefniadau anffurfiol a wneir gan blant yn eu harddegau yn dilyn gwrthdaro neu anghydfod teuluol; trefniadau anghyfreithlon a wneir gan unigolion neu gynghreiriau i gludo plant i Brydain fel gweision domestig; a threfniadau ffurfiol a wneir rhwng ysgolion iaith a theuluoedd croesawu sy'n gofalu am fyfyrwyr tramor. Efallai nad yw cofrestru'n cynnig y dull diogelu mwyaf priodol neu effeithiol i blant yn y categorïau hyn.

DIOGELU PLANT

Mae cofrestru gwarchod plant yn cynnig dull diogelu sylfaenol i rieni sydd am ddewis y math hwn o ofal dirprwyol i'w plant. Byddai cofrestru gofalwyr maeth preifat yn darparu cronfa o ddarparwyr cymeradwy er mwyn i rieni allu dethol person addas i ofalu am les eu plentyn(plant).

CYMHELLIANNAU I GOFRESTRU

Mae'n debyg y byddai amod cyfreithiol i gofrestru yn gymhelliant sylweddol i gofrestru, yn arbennig pe bai cefnogaeth i

ategu hyn. Llwyddwyd i gofrestru gwarchodwyr plant ar raddfa fawr trwy ymgyrchoedd gan awdurdodau lleol i hyrwyddo'r amod cyfreithiol newydd i gofrestru.

Mae hyn yn awgrymu bod dull rhagweithiol sy'n hyrwyddo amod cyfreithiol i gofrestru trwy gysylltiad uniongyrchol â gofalwyr maeth preifat yn debygol o fod yn gymhelliant cryf i gofrestru. Mae ymwelwyr iechyd, athrawon a staff rheng-flaen eraill sy'n gweithio â phlant mewn sefyllfa dda i hyrwyddo'r amod newydd.

Mae cofrestru gwarchodwyr plant wedi bod yn rhaganghenraid i gael gweithlu proffesiynol, gan arwain at hunan-reoleiddio o ran safonau gofal a hysbysu am warchodwyr plant anghofrestredig. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o waith i asesu i ba raddau y mae rheoleiddio gofalwyr maeth preifat yn debygol o arwain at synnwyr o broffesiynoldeb a'r posibilrwydd o hunan-reoleiddio wedi hynny.

SAFONAU ATEGOL

Fel gwarchodwyr plant, dylid asesu gofalwyr maeth preifat yn ôl cyfres o safonau gofynnol sy'n gweithredu fel dull diogelwch sylfaenol.

Fodd bynnag, yn wahanol i warchod plant, mae cyfran fawr o drefniadau gofal maeth preifat yn croesi ffiniau ethnig. Mae hyn yn golygu y dylid cynnig cymorth i ofalwyr maeth preifat i'w helpu i fodloni safon obeithiol sy'n canolbwyntio'n benodol ar ymwybyddiaeth o grefydd, hil a diwylliant plant sy'n derbyn eu gofal. Dylai hyn atal y perygl i blant du ac o leiafrifoedd ethnig golli cysylltiad â'u hunaniaeth ddiwylliannol, cymdeithasol ac ethnig trwy gael eu gosod gyda gofalwyr maeth preifat, gwyn, digefnogaeth.

Mae profiad awdurdodau lleol o faethu a'r tebygrwydd â maethu preifat, o ran dilyniant a pharhad yn awgrymu bod gan gynghorau â chyfrifoldeb gwasanaethau cymdeithasol (CSSRau) yr arbenigedd i weinyddu system gofrestru sy'n seiliedig ar oruchwyliaeth, cefnogaeth a diogelu lles plant maeth preifat.

Dylai'r system gofrestru ganiatáu i ofalwr maeth preifat gofrestru i fod ar gael yn gyffredinol neu i gael eu cymeradwyo ar gyfer plentyn penodol y maent yn ei adnabod yn barod. Byddai hyn yn adlewyrchu'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn cymeradwyo teulu a ffrindiau fel gofalwyr maeth i edrych ar ôl plentyn penodol ar hyn o bryd.

CYDNABOD CYFRANOLDEB

Mae'r amrywiaeth eang o sefyllfaoedd sy'n cael eu eu cwmpasu gan faethu preifat yn awgrymu y dylai diffiniad mwy caeth o ofal maeth preifat ac/neu arweiniad, sy'n gwahaniaethu rhwng y trefniadau maethu preifat y gallai cofrestru fod fwyaf priodol ar eu cyfer, ddarparu'r sylfaen i system gofrestru ar sail cydbwysedd a chyfranoldeb.

YMGYRCH YMWYBYDDIAETH

Mae'n rhaid cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth sy'n targedu'r cyhoedd yn ogystal â gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol i gyd-fynd ag unrhyw fwriad i gofrestru. Bydd hyn hefyd yn darparu dull pwysig o roi cyhoeddusrwydd i gamau'r llywodraeth i ddiogelu'r grŵp hwn o blant sydd wedi'u hesgeuluso i raddau helaeth hyd yma.

EFFEITHIOLRWYDD COFRESTRU GWARCHOD PLANT A'I OBLYGIADAU O RAN MAETHU PREIFAT

1. Cyflwyniad

Mae'r argymhellion canlynol yn seiliedig ar yr arolwg gwybodaeth a gynhaliwyd gan SCIE ar effeithiolrwydd cofrestru gwarchod plant a'i oblygiadau o ran maethu preifat. Mae'r arolwg yn rhan o raglen waith ehangach gan SCIE a gomisiynwyd gan yr Adran Iechyd (AI), Lloegr a Chynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) i archwilio gwasanaethau effeithiol i blant a theuluoedd. Mae'r arolwg gwybodaeth yn cynnwys:

- arolwg ysgrifenedig ar gofrestru gwarchod plant a'i effaith ar ansawdd gofal plant, gan ddefnyddio ymchwil o'r DU a thramor;
- arolwg ysgrifenedig ar faethu preifat, gan gynnwys deddfwriaeth gyfredol, ymgyrch ymwybyddiaeth AI/CCC, profiadau gofalwyr maeth preifat, gweithwyr proffesiynol a phlant a arferai dderbyn gofal maeth;
- ymgynghoriadau SCIE gyda budd-ddeiliaid sydd â chysylltiad uniongyrchol â phlant maeth preifat, eu teuluoedd a gofalwyr maeth preifat, gan gynnwys plant a arferai dderbyn gofal maeth, gweithwyr cymuned, gweithwyr cymdeithasol, ymwelwyr iechyd ac ymchwilwyr;
- arolwg o argymhellion gan aelodau bwrdd SCIE, gan gynnwys Terry Philpot, un o arbenigwyr mwyaf blaenllaw y DU ar faethu preifat.

2. Argymhellion

Cofrestru fel dull diogelu sylfaenol

- Mae'n effeithiol dangos yr elfennau tebyg rhwng defnydd rhieni o wasanaethau gwarchod preifat a maethu preifat oherwydd bod y ddau drefniant wedi'u seilio ar ddewis rhieni. Mae hyn yn golygu bod y ddau fath o ofal plant yn drefniadau preifat yn y bôn rhwng rhieni a darparwyr, sy'n gofyn am daliad am eu gwasanaethau fel arfer.
- Mae cofrestru gwarchod plant yn ddull diogelu sylfaenol i rieni sydd am ddewis y math hwn o ofal dirprwyol i'w plant. Byddai cofrestru gofalwyr maeth preifat yn darparu cronfa o ddarparwyr cymeradwy er mwyn i rieni allu dewis person addas i ofalu am anghenion eu plentyn(plant). O ystyried natur barhaus gofal a ddarperir gan ofalwyr maeth preifat, mae'n bwysig bod plant maeth preifat a'u rhieni yn gallu manteisio ar y dulliau diogelu sylfaenol hyn.
- Mae cyfran fawr o drefniadau maethu preifat yn croesi ffiniau crefydd, hil a diwylliant. Mae cofrestr o ofalwyr maeth preifat yn cynrychioli dull rhagweithiol o ddiogelu plant a all fod yn agored i niwed – gyda llawer ohonynt yn blant du ac o leiafrifoedd ethnig sy'n derbyn gofal gan ofalwyr maeth preifat gwyn ac a allai fod mewn perygl o golli cysylltiad gyda'u hunaniaeth ethnig, diwylliannol a daearyddol.

Cofrestru, proffesiynoldeb a chefnogaeth

- Mae gwarchodwyr plant wedi croesawu'r proffesiynoldeb, statws uwch, hyfforddiant a chefnogaeth sy'n cyd-fynd â chofrestru. Mae tystiolaeth sy'n awgrymu bod y rheiny sy'n ystyried eu hunain fel gofalwyr maeth preifat yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a'r cyngor a gynigir gan weithwyr awdurdod lleol.
- Mae Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant Cymru a Lloegr (NCMA) yn hyrwyddo buddiannau proffesiynol. Mae'r NCMA yn cefnogi cofrestru er mwyn sicrhau y gall plant, teuluoedd a

chymunedau elwa ar y gorau mewn gofal plant ac addysg.

- Mae cofrestru fel gwarchodwr plant yn darparu stamp cymeradwyaeth swyddogol. Mae gwarchodwyr plant cofrestredig yn gwahaniaethu rhwng eu gofal a'r hyn a gynigir gan warchodwyr plant anghofrestredig sy'n darparu gofal o ansawdd isel yn eu barn hwy. Gall proffesiynoldeb ddenu gwarchodwyr maeth preifat a chynnig gwell statws iddynt a'r ymdeimlad eu bod yn ddarparwyr gofal o ansawdd uchel.
- Mae gwarchodwyr plant cofrestredig yn fwy tebygol o roi gwybod am warchodwyr plant anghofrestredig sy'n gyfrifol am ddwyn gwarth ar yr holl broffesiwn. Mae angen gwneud gwaith pellach i asesu a fydd rhagor o ddyletswydd ar ofalwyr maeth preifat cofrestredig i ddatgelu maethu preifat 'cuddiedig' er mwyn diogelu eu statws proffesiynol eu hunain.
- Fodd bynnag, mae diffyg cefnogaeth ar lefel awdurdod lleol wedi cyfrannu at ddirywiad mewn gwarchodwyr plant cofrestredig. Er mwyn denu a chadw gofalwyr maeth preifat o ansawdd da, bydd yn bwysig hyrwyddo system gefnogol ac effeithlon o gofrestru ar gyfer maethu preifat.
- Y Swyddfa dros Safonau Addysg (OFSTED) sydd â'r cyfrifoldeb bellach o gofrestru ac archwilio gwarchodwyr plant. Nid yw effaith y penderfyniad i wahanu'r swyddogaethau cymorth ac archwilio sydd gan swyddogion rheoleiddio OFSTED ar gofrestru gwarchod plant yn hysbys eto.
- Dylid ystyried system gofrestru awdurdod lleol yn hytrach nag un genedlaethol ar gyfer maethu preifat. Mae profiad awdurdodau lleol o faethu'n golygu eu bod mewn sefyllfa dda i ddarparu system gofrestru sydd wedi'i seilio ar oruchwyliaeth, cymorth a diogelu lles plant sy'n byw oddi cartref. Byddai systemau cofrestru'n amodol ar archwiliad gan y Comisiwn Safonau Gofal Cenedlaethol (NCSC).
- Dylai fod yn ddyletswydd ar weithwyr awdurdod lleol, gan gynnwys athrawon, ac ar feddygon teulu ac ymwelwyr iechyd i hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol neu gorff cofrestru arall os ydynt yn amau bod plentyn yn cael ei faethu'n breifat.
- Gallai'r dyletswydd hwn gael ei ategu trwy ddatblygu timau arbenigol o wahanol asiantaethau sydd â chysylltiad â phlant maeth preifat.

Asesiadau a safonau

- Dylai cofrestru maethwyr preifat ganiatáu i ofalwr maeth preifat gofrestru i fod ar gael yn gyffredinol neu i gael ei gymeradwyo ar gyfer plentyn penodol y mae'n ei adnabod yn barod, yn yr un modd ag y gellir cymeradwyo gofalwyr maeth sy'n deulu neu'n ffrindiau i faethu plentyn penodol. Mae'r system hon yn adlewyrchu fframweithiau sydd ar waith i asesu gofalwyr maeth awdurdod lleol. Asesir gwarchodwyr plant, ar y llaw arall, ar eu gallu cyffredinol i ofalu am blant.
- Dylid mesur asesiad o ofalwyr maeth preifat yn ôl cyfres o safonau. Er mwyn dod i benderfyniad clir ynglŷn â beth yw cynnwys y safonau cenedlaethol ar gyfer gofal maeth preifat, dylid ystyried cyfuniad o'r safonau cenedlaethol ar gyfer gwarchodwyr plant ac ar gyfer gofal maeth.
- Awgrymir bod angen i ofalwyr maeth preifat fodloni safonau gofynnol sy'n gweithredu fel dull diogelu sylfaenol. Gellid cyfuno'r safon ofynnol gyda safon obeithiol sy'n canolbwyntio'n benodol ar ymwybyddiaeth o grefydd, hil a diwylliant.

Diffiniad cyfreithiol ac amodau ar gyfer cofrestru

- Yn wahanol i warchod plant, mae plant maeth preifat yn parhau i dderbyn

gofal parhaus eu darparwr gofal maeth. Mae'r diffiniad cyfreithiol cyfredol – gofal parhaus gan berson nad yw'n berthynas am fwy na 28 diwrnod – yn cynnwys amrywiaeth gymhleth o drefniadau maethu preifat.

- Mae diffyg data dibynadwy ar nifer y trefniadau gofal maeth preifat. Mae'r diffyg data dibynadwy'n tanseilio'r mecanweithiau cynllunio o fewn gwasanaethau plant i ddiogelu plant maeth preifat. Mae cofrestru gwarchod plant, ar y llaw arall, wedi cynnig cyfle i gasglu gwybodaeth fanwl am niferoedd gwarchodwyr plant cofrestredig a faint o blant sy'n derbyn eu gofal.
- Er hynny, mae gwybodaeth ar gael am y gwahanol gategorïau o blant sydd wedi'u cynnwys dan ddiffiniadau cyfreithiol cyfredol o faethu preifat. Yn wahanol i warchod plant, mae'r amrywiaeth o sefyllfaoedd cymdeithasol sydd wedi'u cynnwys gan ddiffiniadau swyddogol o ofal maeth preifat yn golygu na fydd cofrestru efallai'n cynnig y dull diogelu mwyaf effeithiol i blant ym mhob un neu rai o'r categorïau a nodir isod.
- Gellir rhannu trefniadau maethu preifat i ddau grŵp o blant. Yn gyntaf, mae plant y mae eu rhieni a'u gofalwyr maeth preifat yn fwy tebygol o ddatgan eu bod yn darparu neu'n ymrwymo i drefniadau maethu preifat. Mae tystiolaeth ymchwil gyfredol yn cyfyngu ar y ddealltwriaeth o'r grŵp hwn i rieni biolegol o Orllewin Affrica sy'n rhoi eu plant yn bennaf yng ngofal gofalwyr maeth preifat, gwyn.
- Mae'r diffiniad cyfreithiol cyfredol o faethu preifat yn cynnwys ail grŵp o blant sy'n byw mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd nad ydynt yn cael eu hystyried yn gymdeithasol o reidrwydd fel maethu preifat. Nid oes fawr ddim tystiolaeth ymchwil ar brofiadau'r ail grŵp hwn o blant, sy'n cynnwys:
  – plant sy'n mynychu ysgolion iaith;
  – plant sy'n dod i mewn i'r wlad fel gweithwyr domestig;
  – plant sy'n cyrraedd fel myfyrwyr cyfnewid diwylliannol;
  – plant rhieni Tsieineaidd sy'n gweithio oriau hir;
  – plant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain;
  – plant â rhieni wedi'u halltudio;
  – plant â rhieni yn yr ysbyty, mewn canolfan adsefydlu cyffuriau neu'n y carchar;
  – plant yn eu harddegau sy'n byw oddi cartref oherwydd anghydfod teuluol.

Dylid cyflawni rhagor o waith i sefydlu ai cofrestru neu ddulliau diogelu eraill fyddai'n cynnig yr amddiffyniad mwyaf priodol i blant sy'n byw oddi cartref yn yr hirdymor yn y categorïau uchod.

- Dylai system gofrestru ar sail cyfranoldeb ystyried cyfyngu'r diffiniad o ofal maeth preifat a/neu nodi pa drefniadau maethu preifat fyddai'n elwa fwyaf effeithiol ar gofrestru.

Ymgyrch ymwybyddiaeth

- Mae'r amrywiaeth eang o drefniadau sydd wedi'u cynnwys dan y diffiniad cyfreithiol cyfredol o ofal maeth preifat yn golygu nad yw llawer o rieni biolegol a gofalwyr maeth preifat yn ymwybodol o'u dyletswydd i hysbysu eu hawdurdod lleol am eu trefniant.
- Mae hyrwyddo'r angen i gofrestru trwy gysylltiad uniongyrchol â gofalwyr maeth preifat yn debygol o fod yn ddull effeithiol o annog cofrestru. Mae ymwelwyr iechyd, athrawon, meddygon teulu a staff rheng-flaen eraill sy'n gweithio â phlant mewn sefyllfa dda i hyrwyddo'r gofyniad i gofrestru.
- Mae'n rhaid i ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus gyd-fynd ag unrhyw ddatblygiadau tuag at gofrestru. Gallai ymgyrch genedlaethol gynnwys, er enghraifft, argraffu rheoliadau maethu

preifat ar gefn llyfrau budd-dâl plant a phosteri mewn meddygfeydd teulu.

3. Sylfaen yr argymhellion

Elfennau tebyg

3.1. Mae elfennau tebyg rhwng maethu preifat a rhieni'n defnyddio gwasanaethau gwarchod plant oherwydd bod y ddau drefniant yn cael eu gwneud yn breifat rhwng rhieni a'r darparwyr gofal, sy'n gofyn am dâl am eu gwasanaethau fel arfer.

3.2. Mae gwarchodwyr plant wedi bod yn destun rheoliadau ers Deddf Rheoli Meithrinfeydd a Gwarchod Plant 1948. Er hynny, nid oedd cofrestru effeithiol ar waith tan Ddeddf Gwasanaethau Iechyd a Iechyd Cyhoeddus 1968 [1]. Ers dechrau'r 1970au, mae pobl wedi galw am gofrestru gofalwyr maeth preifat [2].

3.3. Mae cofrestru yn cynnig dull diogelu sylfaenol i rieni sy'n dewis y math hwn o ofal dirprwyol i'w plant.

3.4. Mae rheoleiddio gwarchodwyr plant wedi hyrwyddo diwylliant proffesiynol cryf. Mae'r NCMA yn ardystio cofrestru fel dynodwr gofal plant o ansawdd [3]. Mae gofalwyr maeth preifat yn debygol o groesawu cofrestru fel cydnabyddiaeth o'u galluoedd gofalu.

Gwahaniaethau

3.5. Y prif wahaniaeth rhwng gwarchod plant a maethu preifat yw natur a chyfnod y gofal. Mae maethu preifat yn digwydd pan fydd plentyn dan 16 oed (18 os yw'n anabl) yn byw gyda rhywun ar wahân i'w rieni neu berthynas agos am 28 diwrnod neu fwy. Diffinnir perthynas, dan Ddeddf Plant 1989, fel teidiau a neiniau, brodyr neu chwiorydd, llysrieni, modrybedd neu ewythrod neu bobl eraill gyda chyfrifoldeb rhiant [2].

3.6. Bydd plant a warchodir gan warchodwyr plant, ar y llaw arall, yn dychwelyd at eu rhieni biolegol neu brif ofalwyr ar ddiwedd eu sesiwn. Mae gwarchodwr plant yn rhywun sy'n gofalu am un neu fwy o blant dan 8 oed am fwy na chyfanswm o ddwy awr y diwrnod yn y cartref am dâl. Gall "tâl" fod yn arian neu'n dâl mewn nwyddau neu wasanaeth [4].

3.7. Mae natur barhaus gofal maeth preifat yn golygu bod trefniadau maethu preifat yn debycach i faethu awdurdod lleol.

3.8. Mae gwarchodwyr plant anghofrestredig yn ymwybodol eu bod yn gweithredu'n anghyfreithlon. Ar y llaw arall, nid yw nifer o deuluoedd biolegol neu ofalwyr maeth preifat yn ymwybodol o'u dyletswydd i hysbysu eu hawdurdod lleol o'r trefniant [5; 6; 7]. Mae hyn yn cael ei gymhlethu gan yr amrywiaeth o drefniadau sy'n cyfrif fel gofal maeth preifat; gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â myfyrwyr ysgol iaith, plant yn eu harddegau sy'n byw gyda ffrindiau a phlant a ddefnyddir fel gweithwyr domestig.

Natur newidiol cofrestru ac archwilio gwarchodwyr plant

3.9. Mae'r cyfrifoldeb am reoleiddio gwarchodwyr plant yn nwylo cyfarwyddiaeth blynyddoedd cynnar OFSTED. Cyn i OFSTED gymryd drosodd, cyfrifoldeb awdurdodau lleol oedd cofrestru ac archwilio gwarchodwyr plant yn Lloegr; roedd gan bob awdurdod lleol ei ofynion cofrestru ei hun. Mae gwarchod

plant o fewn fframwaith rheoleiddio cenedlaethol bellach ac yn rhan o'r system addysg [4; 8; 9].

3.10. Nod cofrestru gwarchodwyr plant trwy OFSTED yw:

– diogelu plant;
– sicrhau bod gwarchodwyr plant yn bodloni safonau cenedlaethol;
– sicrhau bod plant yn ddiogel, yn derbyn gofal da ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cyfrannu at eu datblygiad a'u dysgu;
– hyrwyddo ansawdd uchel yn y ddarpariaeth o ofal a dysgu
– darparu sicrwydd i rieni sy'n defnyddio gwasanaethau annibynnol rhywun nad yw'n berthynas ac efallai'n ddieithryn.

A Guide to Registration for Childminders [4]

3.11. Yn Lloegr, cyflwynodd Deddf Safonau Gofal 2000 safonau cenedlaethol newydd ar gyfer gwarchod plant y mae'n rhaid i warchodwyr plant eu bodloni cyn eu cofrestru ac i OFSTED eu harchwilio. Mae 14 safon cenedlaethol sy'n cynnwys agweddau amgylcheddol, cymdeithasol a threfniadol ar warchod plant:

1. person addas
2. trefniadaeth
3. gofal, dysgu a chwarae
4. amgylchedd ffisegol
5. cyfarpar
6. diogelwch
7. iechyd
8. bwyd a diod
9. cyfle cyfartal
10. anghenion arbennig (gan gynnwys anghenion addysgol arbennig ac anableddau)
11. ymddygiad
12. gweithio mewn partneriaeth â rhieni a gofalwyr
13. diogelu plant
14. dogfennaeth.

A Guide to Registration for Childminders [4]

3.12. Ers mis Medi 2001, mae'n ofynnol i bob gwarchodwr plant yn Lloegr gyflawni cwrs hyfforddiant mewn gwarchod plant, yn ddelfrydol cyn cwblhau eu cofrestriad ond yn sicr o fewn chwe mis i dderbyn tystysgrif gofrestru, er mwyn bodloni un o'r 14 safon genedlaethol ar gyfer gwarchod plant [4].

3.13. Mae'r Biwro Cofnodion Troseddol wedi derbyn pentwr o geisiadau am archwiliadau heddlu i weithwyr gofal plant, ac mae hyn wedi arwain at oediadau difrifol [11, tud3]. Gall hyn effeithio (yn y tymor byr) ar y broses o recriwtio gwarchodwyr plant a grwpiau eraill sy'n gweithio gyda phlant.

Cofrestru gwarchodwyr plant ac ansawdd gofal plant

3.14. Er mawr syndod, nid oes llawer o dystiolaeth ymchwil i awgrymu bod cofrestru gwarchodwyr plant wedi gwella ansawdd gofal plant. Roedd ymchwil a gynhaliwyd yn y DU yn ystod yr 1970au a dechrau'r 1980au yn feirniadol iawn o'r gwasanaeth a ddarparwyd gan warchodwyr plant cofrestredig [12; 13; 14; 15; 16].

3.15. Er hynny, mae ymchwil fwy diweddar yn y DU a safbwyntiau arbenigwyr yn awgrymu bod cofrestru ar y cyfan wedi arwain at well safonau [17; atodiad 1].

3.16. Mae tystiolaeth o dramor yn awgrymu mai gorfodi safonau yw'r elfen allweddol wrth wella safonau. Yn ystod yr 1980au, symudodd yr UD

ei gyfrifoldeb am ei system gofrestru gofal dydd (gwarchod plant) o lywodraeth ffederal i lywodraeth daleithiol. Roedd canolfannau gofal dydd yn y taleithiau gyda'r safonau trwyddedu mwyaf llym yn darparu gwasanaeth o ansawdd uwch [18; 19].

Gorfodi safonau

3.17. Er hynny, mae penderfyniadau a wnaed yn Llys Achosion Teulu y DU wedi tanseilio ymdrechion gan awdurdodau lleol i orfodi safonau gofal dydd, yn arbennig meithrinfeydd.

3.18. Datgelodd arolwg ar ganlyniadau apeliadau dan ran X Deddf Plant 1989 sy'n ymwneud â darpariaeth gwarchod plant a gofal dydd bod llysoedd yn nhri o bob pump achos a adolygwyd yn rhoi "penrhyddid sylweddol i ddarparwyr barhau i gynnig gwasanaeth sydd wedi'i brofi yn annigonol ddifrifol" [20, tud 32].

3.19. Mae'r astudiaeth yn dod i'r casgliad bod rheoliadau yn gweithio i'r graddau bod y mwyafrif o blant yn cael eu diogelu rhag y peryglon sy'n deillio o ddiffyg diogelwch corfforol neu rhag pobl a fyddai'n eu cam-drin neu'n eu hanafu ond nid yw'n diogelu plant rhag "darparwyr sy'n ceisio osgoi neu'n gwanhau safonau'n barhaus [20, tud32].

Cydymffurfiaeth â systemau rheoleiddio

3.20. Roedd yn ofynnol yn ôl Deddf Rheoli Meithrinfeydd a Gwarchodwyr Plant 1948 i awdurdodau iechyd lleol gadw cofrestri o feithrinfeydd a gwarchodwyr plant ac roedd yn drosedd yn ôl y ddeddf i weithredu gwasanaethau o'r fath heb gofrestru a rhoddwyd y grym i awdurdodau wrthod neu ddiddymu cofrestriad [1].

3.21. Roedd y Ddeddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus 1968 yn ymestyn y meini prawf ar gyfer cofrestru a chyfrannodd hyn at gynnydd sylweddol yn nifer gwarchodwyr plant cofrestredig o 5,800 yn 1968 i 25,600 yn 1970 [16, tud6].

3.22. Hyrwyddwyd yr amod cyfreithiol newydd i gofrestru trwy:

- gysylltiad uniongyrchol rhwng gwarchodwyr plant ac ymwelwyr iechyd a gweithwyr gofal plant rheng flaen eraill;
- ymgyrch ymwybyddiaeth genedlaethol, gan gynnwys hysbysebion yn y wasg a thaflenni ar gyfer gwarchodwyr plant mewn meddygfeydd teulu [1; atodiad 1].

3.23. Mae cofrestru wedi arwain at broffesiynoli gwarchod plant. Sefydlwyd NCMA yn 1977 gan warchodwyr plant, rhieni a gweithwyr awdurdod lleol ac mae wedi datblygu yn sefydliad unigryw gyda staff proffesiynol sy'n cynnwys gwarchodwyr plant ar bob lefel. Mae'n hyrwyddo gwarchod plant cofrestredig fel dynodwr gofal plant o ansawdd [3].

3.24. Yn ei dro, mae proffesiynoldeb gwarchod plant wedi arwain at hunan-reoleiddio. Mae disgwyl i holl warchodwyr plant NCMA weithio tuag at 10 safon ansawdd sy'n cynnwys pob agwedd ar warchod plant. Mae hyn yn pwysleisio enw da gwarchodwyr plant NCMA fel gweithwyr gofal plant proffesiynol o ansawdd uchel [21].

3.25. Mae hunan-reoleiddio yn cynnwys rhoi gwybod am warchodwyr plant anghofrestredig. Mae gwarchodwyr plant cofrestredig yn fwy tebygol o roi gwybod am warchodwyr plant anghofrestredig, sy'n gyfrifol am

ddwyn gwarth ar yr holl broffesiwn yn eu barn hwy [atodiad 1].

3.26. Mae tystiolaeth ymchwil yn awgrymu bod cydymffurfio â chofrestru wedi'i gynyddu trwy:

"….gymorth, mentora a chymorth technegol lle mae rheoleiddwyr yn cynnal trafodaethau â gwarchodwyr plant ynglŷn â sut a pham y gweithredir safonau penodol" [17, tud 152].

3.27. Mae adroddiad gan yr Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol (SSI) ar drefniadau i blant dan wyth oed yn ategu'r datganiad uchod ac yn awgrymu bod:

"…cefnogaeth, hyfforddiant a chyngor parhaus i ddarparwyr gofal dydd cofrestredig i gyd yn elfennau hanfodol wrth sicrhau bod y safonau rheoleiddio gofynnol o ran gofal plant yn cael eu cynnal, eu gwella a'u diweddaru. Heb y gwasanaethau hyn, ni all gwasanaeth rheoleiddio ar ben ei hun sicrhau canlyniadau da i blant" [22, tud 35].

Cynorthwyo gwarchodwyr plant cofrestredig

3.28. Mewn gwirionedd, mae gwarchodwyr plant wedi croesawu'r cymorth sy'n gysylltiedig â chofrestru, yn arbennig datblygiad perthynas bersonol ag arolygwyr awdurdodau lleol [8]

3.29. Nid oes gan swyddogion rheoleiddio OFSTED swyddogaeth bellach i gynorthwyo, cynghori neu hyfforddi gwarchodwyr plant. Partneriaethau datblygu blynyddoedd cynnar sy'n gyfrifol am gynorthwyo a datblygu erbyn hyn. Gall yr adran archwilio a chymorth gael effaith negyddol ar recriwtio a chadw gwarchodwyr plant [1].

3.30. Mae'r SSI wedi annog awdurdodau lleol i egluro dibenion a'r mathau o gymorth sydd ar gael i ddarparwyr gofal dydd, er mwyn gwella trefniadau, gweithdrefnau a phrotocolau cydweithio rhwng rheoleiddwyr a staff datblygu [22].

3.31. Mae'r mathau canlynol o gymorth wedi'u hawgrymu fel sylfaen ar gyfer datblygu gweithdrefnau, ffiniau, swyddogaethau a chyfrifoldebau i'w rhannu:

- gwybodaeth a chyngor i ddarparwyr am ddeall gofynion rheoleiddio a safonau archwilio;
- gwybodaeth a chyngor i ddarparwyr am arfer gorau;
- gwybodaeth a chyngor i ddarparwyr am anghenion arbennig plant unigol;
- gwybodaeth a chyngor i rieni sy'n chwilio am ofal dydd;
- gwybodaeth a chyngor i ddarparwyr sydd am amrywio amodau eu cofrestriad;
- gweithredu ar bryderon am ofal dydd o ansawdd isel;
- monitro darparwyr sy'n methu bodloni safonau gofal plant;
- gwybodaeth a chyngor i weithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal.

Who's Looking After the Children? [22, p6]

Gostyngiad yn niferoedd gwarchodwyr plant cofrestredig

3.32. Yn syth ar ôl cyflwyno Deddf Plant 1989, bu gostyngiad yn niferoedd gwarchodwyr plant cofrestredig o 109,200 yn 1992 i tua 81,000 yn 1993 [8, tud15]. Mae ymchwil yn awgrymu bod hyn yn adlewyrchu colli gwarchodwyr plant 'cwsg' yn hytrach nag o ganlyniad i weithdrefnau arolygu newydd, yr

oedd y mwyafrif o warchodwyr plant yn eu croesawu [23].

3.33. Dull gweinyddol o gael gwared ar bobl nad oedd yn gweithredu bellach fel gwarchodwyr plant ond bod eu manylion yn parhau i ymddangos ar restrau awdurdodau lleol oedd yn gyfrifol am y gostyngiad. Cafodd hyn ei hyrwyddo'n rhannol gan y ffi cofrestru o £10 a gyflwynwyd. Roedd niferoedd gwarchodwyr plant yn codi a gostwng wedi hynny i lefel uchaf o 102,600 yn 1996 cyn dechrau gostwng yn gyson wedi hynny [8].

3.34. Yn fwy diweddar, nid yw nifer y cofrestriadau gwarchodwyr plant newydd wedi bod mor uchel â nifer y gwarchodwyr plant sy'n gadael y proffesiwn. Mae lefelau is a natur newidiol arolygu a chynorthwyo gwarchodwyr plant wedi'u cynnig fel rhai o blith sawl ffactor sy'n effeithio ar lefelau cadw staff. Mae nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig wedi gostwng o 102,600 yn 1996 i 75,600 yn 2000. Mae'r rhesymau bod cymaint wedi gadael y proffesiwn yn cynnwys:

– diffyg cymorth i warchod plant ar lefel awdurdod lleol;
– cyflog isel a statws gwael y gwaith;
– gofynion rheoleiddio cynyddol, er bod gwarchodwyr plant yn cymeradwyo'r rheoliadau.

Mae'r rhesymau dros y gostyngiad yn y gweithwyr sy'n ymuno â'r proffesiwn yn cynnwys:

– demograffeg newidiol yn arwain at gyflenwad llai o ddarpar warchodwyr plant;
– rhagor o gyfleoedd cyflogaeth yn cynnig patrymau gweithio hyblyg;
– cyflog isel a statws gwael y gwaith;

Who Cares? Childminding in the 1990s [8]

Gwarchod plant anghofrestredig

3.35. Nid oes gwybodaeth ddiweddar am niferoedd tybiedig gwarchodwyr plant anghofrestredig. Dyfalodd arolwg ar warchod plant ganol yr 1980au bod 15 i 25 y cant o'r holl blant dan 5 oed y gofalir amdanynt yn cael eu gwarchod gan warchodwyr plant anghofrestredig. Roedd hyn wedi'i seilio'n bennaf ar astudiaeth graddfa fechan o rieni a ddatgelodd bod 17 y cant o 70 o blant ar draws 24 awdurdod lleol yn cael eu gwarchod gan warchodwyr anghofrestredig [16, tud8]. Dylid nodi bod yr amcangyfrif hwn wedi'i wneud cyn cyflwyno Deddf Plant 1989.

3.36. Yn ystod canol yr 1990au, datgelodd ymchwil ar y defnydd o apeliadau ac erlyniadau dan ran X Deddf Plant 1989 nad oedd dau o bob tri awdurdod lleol wedi defnyddio'r weithdrefn orfodi (a78(3)). Mae'r weithdrefn hon wedi'i chynllunio i ddarparu hysbysiad ffurfiol i rywun sy'n gweithredu fel gwarchodwr plant heb gofrestru bod yn rhaid iddynt gofrestru heb i'r person dan sylw fod wedi troseddu'n awtomatig [20].

3.37. Mae'r ymchwil yn nodi nad yw'n bosib dweud a oedd hyn oherwydd bod awdurdodau lleol yn ystyried y byddai'n ddigonol cynghori pobl i gofrestru heb droi at y weithdrefn orfodi neu oherwydd diffyg hyder yn y weithdrefn ei hun neu brinder amser i'w gweithredu.

3.38. Er hynny, lle defnyddiwyd y weithdrefn a gweithredu arni yr oedd yn effeithiol wrth annog y gwarchodwr plant i wneud cais i gofrestru neu i beidio gofalu am y plant.

3.39. Os na dderbyniwyd cais ar ôl yr hysbysiad gorfodi, roedd yn anodd i

awdurdodau lleol wybod a oedd y person wedi rhoi'r gorau i weithredu fel gwarchodwr plant oherwydd bod monitro yn cymryd amser, neu oherwydd yr anawsterau o brofi ei fod yn gwarchod am dâl [20, tud17-18].

3.40. Er hynny, mae gwybodaeth sy'n awgrymu bod cofrestru a phroffesiynoldeb cynyddol gwarchodwyr plant wedi gostwng niferoedd y gwarchodwyr plant anghofrestredig. Nid yw ymwelwyr iechyd a staff eraill sy'n gweithio â phlant wedi dod ar draws nifer fawr o warchodwyr plant anghofrestredig yn gweithio yng Nghymru a Lloegr [atodiad 1].

Goblygiadau cofrestru i ofalwyr maeth preifat

3.41. Mae adroddiadau swyddogol wedi amlygu methiant y system hysbysiad gyfredol i ddiogelu plant maeth preifat [24; 25; 26]. Mae gan system gofrestru botensial i ddefnyddio dull rhagweithiol tra'n parhau â'r egwyddor o roi dewis i rieni a pharhau i ddiogelu plant rhag gofalwyr diegwyddor neu o ansawdd isel.

3.42. Bydd defnyddio dull rhagweithiol yn gymhelliant allweddol i gofrestru. Cynyddodd cofrestriadau gwarchodwyr plant yn ystod diwedd yr 1960au o ganlyniad i ymgyrchoedd rhagweithiol oedd â'r nod o gael gwarchodwyr plant i gofrestru [16; atodiad II]. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â'r dull mwy goddefgar a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol yn ystod yr 1990au o ran diffyg defnyddio gweithdrefnau gorfodi gyda gwarchodwyr plant a methiant wrth hyrwyddo gweithdrefnau hysbysiad i ofalwyr maeth preifat [20; 21; 25; 26].

3.43. Mae'r cymhelliannau i gofrestru'n cynnwys:

- y gofyniad cyfreithiol i gofrestru (wedi'i hyrwyddo trwy gysylltiad uniongyrchol â gofalwyr maeth preifat);
- y statws uwch a gynigir i ofalwyr maeth preifat;
- ffynhonnell gymorth ymarferol.

3.44. Byddai cofrestru'n golygu bod gofyn i awdurdodau lleol gymeradwyo'r gofalwr maeth yn swyddogol fel rhywun addas. Dan y system hysbysiad gyfredol, mae'r awdurdod lleol yn "derbyn y trefniant" [2; atodiad II].

3.45. Mae'n bwysig derbyn cymeradwyaeth swyddogol i hyrwyddo datblygiad ymwybyddiaeth broffesiynol ymhlith gofalwyr maeth preifat [3; 8].

3.46. Er hynny, mae angen cyflawni gwaith pellach i asesu i ba raddau y mae proffesiynoldeb gofalwyr maeth preifat yn debygol o arwain at hunan-reoleiddio, o ran ansawdd gofal neu y tebygrwydd o roi gwybod am ofalwyr maeth preifat heb eu cymeradwyo [atodiad II].

3.47. Dylai cofrestru gwmpasu cymorth i ofalwyr maeth preifat. Mae cymorth yn elfen allweddol wrth hysbysu am drefniadau gofal maeth preifat i awdurdodau lleol. Mae gweithwyr ymroddedig wedi pwysleisio eu bod yn fwy tebygol o hysbysu'r awdurdod os yw awdurdodau lleol yn cynnig cymorth i ofalwyr maeth preifat, [2; 27]. Mae cymorth wedi'i nodi fel elfen allweddol o ran sefydlogrwydd lleoliad teulu [28].

3.48. Gellir cynnig cymorth ar sawl ffurf, gan gynnwys cyngor ar safonau

rheoleiddio a chanllaw arfer gorau, perthynas bositif gyda swyddogion rheoleiddio, datblygu grwpiau hunan-gymorth i hyrwyddo ymdeimlad o broffesiynoldeb, cyrsiau hyfforddi gofal plant, monitro a mynediad i ddeunyddiau ar ofalu ar draws ffiniau crefydd, hil a diwylliant [22; 28; 29; 30; 31].

3.49. Mae dulliau posib eraill o gynorthwyo gofalwyr maeth preifat yn cynnwys ymestyn amddiffyniad cyfrifoldebau cartref a dderbynnir trwy fudd-dâl plant. Awgrymwyd y dylid diogelu pensiynau'r holl ofalwyr maeth awdurdod lleol, gwirfoddol ac annibynnol. Gallai'r mesur hwn weithredu fel un cymhelliant i gofrestru [atodiad I].

3.50. Dylid ystyried system gofrestru maethu preifat gan awdurdodau lleol yn hytrach nag un genedlaethol. Golyga profiad awdurdodau lleol o faethu eu bod mewn sefyllfa dda i ddarparu system gofrestru sy'n seiliedig ar oruchwyliaeth a chymorth i ddiogelu lles y grŵp plant hwn a allai fod yn agored i niwed ac sy'n byw oddi cartref.

3.51. Dylai asesiad o ofalwyr maeth preifat adlewyrchu'r asesiad o ofalwyr maeth awdurdod lleol a gymeradwyir naill ai fel bod ar gael yn gyffredinol i faethu plant neu'n gallu maethu plentyn penodol yn unig y maent yn ei adnabod yn barod [27; atodiad II].

3.52. Mae angen cyflawni rhagor o waith ar ba safonau ddylai fod yn gymwys i ofal maeth preifat. Gellid asesu gofalwyr maeth preifat yn ôl y safonau gofal sy'n gymwys i warchodwyr plant a'r safonau hynny sy'n gymwys i ofalwyr maeth [32; 33; 34]. Mae 25 o safonau cenedlaethol ar gyfer gofal maeth wedi'u cynnwys o fewn tri prif faes pwnc:

1. Mae anghenion a hawliau penodol pob plentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal maeth yn cael eu diwallu a'u parchu.
2. Mae pob gofalwr maeth yn darparu gofal effeithiol a phriodol.
3. Mae pob awdurdod sy'n gyfrifol am ddarparu gofal cyhoeddus i blant a phobl ifanc yn cynnig gwasanaeth gofal maeth o ansawdd uchel i bawb a allai elwa arno.

National Standards for Foster Care [33].

3.53. Mae'r NCSC yn arolygu pob tîm maethu awdurdod lleol, sefydliadau gwirfoddol ac asiantaethau maethu annibynnol sy'n defnyddio'r safonau gofynnol cenedlaethol (NMS) yn hytrach na'r safonau cenedlaethol mwy cynhwysfawr ar gyfer gofal maeth a amlinellir uchod [34]. Mae'r NCSC mewn sefyllfa dda i gyflawni arolygiadau o gofrestriadau gofal maeth preifat.

3.54. Gallai cofrestru gofalwyr maeth preifat gynnwys proses ddeublyg. Yn gyntaf, dylid seilio cofrestru dros dro ar ofalwyr maeth preifat yn bodloni'r safonau gofal gofynnol. Yn ail, o ystyried y gyfran fawr o drefniadau gofal maeth preifat ar draws ffiniau crefydd, hil a diwylliant, gallai cofrestru'n llawn ddibynnu ar ofalwyr maeth preifat, gwyn yn mynychu hyfforddiant sy'n cynnwys y materion cymdeithasol, diwylliannol a lles penodol eraill sy'n deillio o ofalu am anghenion plant du ac o leiafrifoedd ethnig [5; 35; 36; atodiad II].

3.55. Byddai system fwy caeth yn arwain at yrru gofal maeth preifat yn fwy tanddaearol [atodiad I]. Ymddengys

bod rhai gofalwyr maeth preifat naill ai'n gyn weithwyr awdurdod lleol neu wedi cael eu gwrthod fel gofalwyr maeth awdurdod lleol [2]. Mae rhai wedi bod yn warchodwyr plant [36]. Mae gofalwyr maeth preifat yn dewis ymreolaeth ac absenoldeb ymyrraeth wladol yn eu trefniadau [27].

3.56. Mae cymorth o fewn y cyd-destun hwn yn hanfodol bwysig i ysgogi gofalwyr maeth preifat a rhieni biolegol i gofrestru. Mae cofrestru yn golygu bod angen ffurfioli gweithio â rhieni biolegol, gofalwyr maeth a phlant. Gallai hyn ddigwydd ar ffurf contractau ysgrifenedig; cysylltiad rhwng rhieni biolegol a gweithwyr awdurdod lleol; cymorth i ofalwyr maeth preifat ar grefydd, hil a diwylliant; ac mae'n cynnig cyfleoedd i weithio â phlant [36; atodiad II].

3.57. Mae cofrestru hefyd yn amlygu pwysigrwydd cydweithio rhwng asiantaethau. Dylai hyn gynnwys dyletswydd ar weithwyr awdurdod lleol, gan gynnwys athrawon, a meddygon teulu ac ymwelwyr iechyd i hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol os ydynt yn amau bod plentyn yn cael ei faethu'n breifat. Gallai timau arbenigol yn hytrach na gweithwyr ymroddedig gynorthwyo cydweithio o fewn a rhwng asiantaethau. Byddai hyn yn cynorthwyo i nodi plant maeth preifat ac olrhain eu lleoliad ar draws ffiniau awdurdodau lleol os ydynt yn symud [5; atodiad II].

3.58. Mae cofrestru yn hwyluso'r broses o gasglu data manwl ar niferoedd ac amrywiaeth trefniadau maethu preifat. Ar hyn o bryd, nid yw nifer y plant maeth preifat yn hysbys. Yn 1991, amcangyfrifodd y Gwasanaeth Ymgynghorol Teuluoedd Affricanaidd (AFAS) bod rhwng 6,000 a 9,000 o blant o Orllewin Affrica yn derbyn gofal maeth preifat. Roedd y ffigur hwn wedi'i seilio ar astudiaeth gan 12 awdurdod lleol gyda'r cyfraddau hysbysu uchaf. Ymchwiliodd wedi hynny i gyfraddau lle na hysbyswyd trwy ymweld â thai ac ar sail y canfyddiadau hyn, ffurfiwyd darlun cenedlaethol [27, tud9].

3.59. Amcangyfrifodd AFAS bod 80 i 90 y cant o leoliadau yn cynnwys plant o Orllewin Affrica (Nigeria yn bennaf) [34]. Mae'n ymddangos bod y ffigur o 10,000 o blant wedi'u maethu'n breifat [7; 8] wedi'i seilio ar gyfuniad o'r amcangyfrifiad o 6-9,000 o blant o Orllewin Affrica yn ogystal â 10 i 20 y cant pellach o blant o dras ethnig arall [27].

3.60. Mae'r diffiniad cyfreithiol cyfredol o ofal maeth preifat yn cynnwys amrywiaeth o drefniadau gofal plant [5]. Gall dulliau diogelu heblaw cofrestru gynnig diogelwch mwy priodol i rai plant sy'n byw mewn trefniadau a ddiffinnir ar hyn o bryd fel gofal maeth preifat.

3.61. Mae trefniadau gofal maeth preifat yn cynnwys dau grŵp o blant. Yn gyntaf, mae tystiolaeth ymchwil yn awgrymu bod plant y byddai eu rhieni a'u gofalwyr maeth preifat yn fwy tebygol o ddiffinio eu hunain fel darparu neu ymrwymo i drefniadau gofal maeth preifat.

3.62. Mae'r grŵp cyntaf hwn yn cyfeirio at blant rhieni o Orllewin Affrica, sydd, trwy gyfuniad o dlodi ac amodau byw anfoddhaol, wedi arfer defnyddio teulu a rhwydweithiau cymuned ehangach i ofalu am eu plant, ac oherwydd eu bod yn treulio oriau hir yn gweithio neu astudio, yn ystyried

mai maethu yw eu hunig ddewis. Mae lleoliadau wedi tueddu i fod gyda gofalwyr maeth preifat, gwyn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig [2; 27; 35; 36; 37; 38; 39; 40; 41; 42].

3.63. Mae'r diffiniad cyfreithiol cyfredol o ofal maeth preifat yn cynnwys ail grŵp o blant sy'n byw mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd nad ydynt yn briodol drwy'r amser i'w dosbarthu fel gofal maeth preifat. Nid oes fawr ddim tystiolaeth ymchwil ar brofiadau'r grŵp hwn o blant a allai fod yn agored i niwed. Dylid cyflawni mwy o waith i benderfynu a ddylid cynnwys yr holl gategorïau hyn o blant neu rai ohonynt i gofrestru. Mae'r plant yn y grŵp hwn yn cynnwys, er enghraifft, plant Tsieineaidd sy'n derbyn gofal maeth preifat am resymau sy'n adlewyrchu profiadau eu cymheiriaid o Orllewin Affrica. Mae'r ail grŵp hwn o blant yn cynnwys:

- Plant Tsieineaidd wedi'u lleoli mewn cartrefi gwledig, gwyn, sy'n cadw cysylltiadau cryf gyda'u teuluoedd yn ôl pob tebyg [29; 36];
- plant sy'n ceisio lloches heb eu rhieni;
- plant sydd â'u rhieni wedi'u halltudio;
- plant sy'n dod i mewn i'r wlad fel gweithwyr domestig;
- plant sy'n cyrraedd fel myfyrwyr cyfnewid diwylliannol neu ar wyliau noddedig yn dilyn trychinebau fel Chernobyl [2; 27];
- plant sy'n mynychu ysgolion iaith;
- plant sy'n mynychu ysgolion preswyl ac sy'n aros gyda phobl nad ydynt yn berthnasau yn ystod gwyliau. Mae'r rhain yn aml yn blant sydd â'u rhieni yn byw dramor [29];
- plant gyda'u rhieni yn yr ysbyty, mewn canolfan adsefydlu cyffuriau neu'n y carchar [2];
- plant sy'n byw a phobl nad ydynt yn berthnasau oherwydd anghydfod teuluol. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys plant yn eu harddegau sy'n byw gyda rhieni ffrindiau a rhai ar ffo, y gellir eu diffinio'n gyfreithiol fel plant maeth preifat;
- plant sydd wedi'u gadael gan eu rhieni [atodiad II].

3.63.1. Nid oes llawer o wybodaeth am hyd a lled maethu preifat ymhlith plant ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae swyddogion mewnfudo yn tybio bod plant yng nghwmni oedolion sy'n ofalwyr yn ddiogel, tra bod plant ar eu pen eu hunain yn gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol. Gellir rhagweld bod rhai o'r plant hyn, yn arbennig plant o ddwyrain Ewrop mewn trefniadau maethu preifat. Mae pryderon tebyg wedi'u mynegi am wahanu oddi wrth eu teuluoedd, colli hunaniaeth ethnig a diwylliannol a bod yn agored i risg [27; 43].

3.63.2. Yn achos plant sydd â'u rhieni wedi'u halltudio, efallai na fydd yn bosib i olrhain y rhieni hynny ar ôl iddynt ddychwelyd i'w gwledydd cartref [29].

3.63.3. Mae pryderon cynyddol am blant sy'n cyrraedd fel gweithwyr domestig. Yn dechnegol, mae plant o'r fath yn cael eu maethu'n breifat. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod teuluoedd Affricanaidd proffesiynol sy'n mynd allan i weithio ac angen mynediad i olaf plant yn defnyddio plant sydd wedi cyrraedd y DU fel gweithwyr domestig. Mae plant yn cyrraedd y wlad naill ai gydag unigolion neu syndicadau sy'n defnyddio dogfennau teithio ffug neu'n cael

eu rhoi ar ddogfennau teithio pobl eraill fel eu plant eu hunain. Mae'r plant yn gweithio oriau hir, yn ddi-dâl fel arfer ac nid ydynt yn cael y cyfle i fynd i'r ysgol. Maent hefyd yn agored i gamdriniaeth emosiynol, meddyliol a chorfforol [44].

3.63.4. Mae plant sy'n mynychu ysgolion iaith neu fyfyrwyr cyfnewid diwylliannol sy'n aros â theuluoedd am fwy na 28 diwrnod hefyd yn cael eu cwmpasu gan y diffiniad cyfreithiol o blant maeth preifat. Nododd astudiaeth a gynhaliwyd gan heddlu Avon a Gwlad yr Haf 550 digwyddiad o esgeuluso, camdriniaeth emosiynol a rhywiol o fewn cyfnod o 15 mis yn ymwneud â myfyrwyr ysgol iaith; dim ond tri o'r digwyddiadau y rhoddwyd gwybod iddynt amdanynt [2, tud48].

3.63.5. Yn dechnegol, mae plant sy'n dewis byw gyda chyn bartner eu rhiant ar ôl i berthynas y rhiant ddod i ben hefyd yn blant maeth preifat [atodiad II].

3.63.6. Bydd nifer o blant sy'n byw gyda phobl nad ydynt yn berthnasau oherwydd anghydfod teuluol yn symud yn ôl i'w cartref teuluol, bydd rhai yn parhau i fyw mewn trefniadau maeth preifat a bydd eraill mewn perygl o ddigartrefedd, lle bydd 'syrffio soffa' (cysgu ar soffas pobl eraill am noson yma ac acw) yn brif fath o loches iddynt [2; 5; 27; atodiad II].

3.64. Efallai y bydd yn rhy feichus, yn amhriodol ac yn aneffeithiol i weithredu system gofrestru ar gyfer pob categori o blant a nodir uchod. Dylid cyfuno ymdrechion i gyfyngu'r diffiniad cyfredol o ofal maeth preifat ac/neu arweiniad i wahaniaethu rhwng y cyd-destunau y mae cofrestru gofal maeth preifat yn digwydd ynddynt gydag atebion eraill i ddiogelu lles yr holl blant sy'n agored i niwed ac sy'n byw oddi cartref p'run ai yw'n ofynnol i'w gofalwyr gofrestru fel gofalwyr maeth preifat ai peidio.

3.65. Mae'n rhaid i ymgyrch ymwybyddiaeth gyd-fynd ag unrhyw symudiad tuag at gofrestru. Mae awgrymiadau am ymgyrch genedlaethol wedi'i hanelu at rieni a maethwyr preifat yn cynnwys argraffu rheoliadau maethu preifat ar gefn llyfrau budd-dâl plant [2, tud133]. Mae ymgyrchoedd recriwtio lleol yn hytrach na chenedlaethol wedi bod yn fwy effeithiol wrth recriwtio gofalwyr maeth awdurdod lleol [27].

3.66. Dylai cyhoeddi arweiniad ar gyflwyno cofrestru i gyd-fynd ag ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o ddyletswyddau newydd ymhlith awdurdodau lleol. Gallai hyn hefyd gynnwys codi ymwybyddiaeth o gofrestru neu ddulliau diogelu eraill ymhlith sefydliadau sy'n defnyddio gofalwyr maeth preifat ar hyn o bryd, fel ysgolion iaith neu'r rheiny sy'n cymryd rhan mewn cyfnewidiadau diwylliannol.

4. Crynodeb o argymhellion

- Mae'n effeithiol cymharu elfennau tebyg yr egwyddor o gofrestru gwarchod plant a system reoleiddio ar gyfer gofal maeth preifat oherwydd bod y ddau yn drefniadau preifat rhwng y rhiant a'r darparwr.
- Mae cydymffurfiaeth â chofrestru gwarchod plant wedi'i gryfhau gan systemau cymorth. Mae awdurdodau

lleol mewn sefyllfa gadarn i gynnig systemau cofrestru ar sail cymorth yn ogystal ag archwiliad.

- Mae cymeradwyaeth swyddogol yn rhaganghenraid ar gyfer proffesiynoli; mae angen rhagor o waith i asesu a yw proffesiynoli'n debygol o arwain at hunan-reoleiddio, o ran safonau gofal a hysbysu am ofalwyr maeth preifat sydd heb eu cymeradwyo.
- Dylai fod yn ddyletswydd ar weithwyr awdurdod lleol i hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol os ydynt yn amau bod plentyn yn cael ei faethu yn breifat.
- Bydd cydnabod gwahaniaethau yn natur ac amserlen gofal rhwng gwarchod plant a maethu preifat yn cynorthwyo i lunio strategaeth ar gyfer y dyfodol i ofal maeth preifat.
- Dylai cofrestru ganiatáu i ofalwyr maeth preifat gael eu hasesu fel bod ar gael yn gyffredinol neu fel arall i gael eu cymeradwyo ar gyfer plentyn penodol y maent yn ei adnabod yn barod.
- Dylid cyflawni gwaith pellach ar safonau i ofal maeth preifat.
- Mae gan gofrestru'r potensial i ddiogelu rhai ond nid yr holl gategorïau o blant sydd wedi'u cynnwys dan ddiffiniadau cyfredol gofal maeth preifat.
- Dylai diffiniad mwy cyfyngedig o ofal maeth ac/neu arweiniad sy'n gwahaniaethu rhwng trefniadau maethu preifat y byddai cofrestru'n fwyaf priodol ar eu cyfer ddarparu sylfaen ar gyfer system gofrestru effeithiol.
- Dylid ystyried amrywiaeth o atebion i ddiogelu lles yr holl blant sy'n agored i niwed ac sy'n byw heb eu rhieni neu berthnasau agos.
- Dylid cynnal ymgyrch ochr yn ochr â chofrestru i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd ac ymhlith gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol.

Cyfeiriadau

1. Baldock, P (2001) *Regulation Early Years Services*, Llundain: David Fulton Publishers.

2. Holman, B (2002) *The Unknown Fostering: A Study of Private Fostering*. Lyme Regis: Russell House Publishing.

3. Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant (NCMA) (2001) *What is the NCMA?* http://www.ncma.org.uk/erol.html [1 Hydref 2002].

4. Y Swyddfa dros Safonau Addysg (OFSTED) (2001) *A Guide to Registration for Childminders* www.ofsted.gov.uk/publications/docs/2441.pdf [12 Awst 2002].

5. Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain (BAAF) (2002) *Department of Health Review on Private Fostering: Cyflwyniad BAAF*, Llundain: BAAF.

6. Yr Adran Iechyd (2001) *Private Fostering: A Cause for Concern*. Llundain: Yr Adran Iechyd.

7. Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2002) *Maethu Preifat.* Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

8. Mooney, A, Knight, A, Moss, P ac Owen, C (2001) *Who Cares? Childminding in the 1990s*, Caerefrog: Joseph Rowntree Foundation.

9. Cymdeithas Genedlaethol Gwarchodwyr Plant (NCMA) (2001) *The Change to OFSTED*, http://www.ncma.org.uk/erol.html [12 Awst 2002].

10. Yr Adran Addysg a Sgiliau (DFES) (2001) *What Experience and Qualifications Do I Need?* http://www.dfes.gov.uk/childcarecareers/chil_qual.cfm?page=6 [12 Awst 2002].

11. Smithers, R (2002) Backlog on nursery vetting 'carries risk', *Guardian, 02.08.02: 3*.

12. Community Relations Commission (CRC) (1975) *Who Minds? A Study of Working Mothers and Childminding in Ethnic Minority Communities*, Llundain: CRC.

13. Mayall, B a Petrie, P (1977). *Minder, Mother and Child*. Llundain: Athrofa Addysg Prifysgol Llundain.

14. Mayall, B a Petrie, P (1983). *Childminding and Day Nurseries: What Kind of Care?* Llundain: Athrofa Addysg Prifysgol Llundain.

15. Jackson, B a Jackson, S (1979). *Childminder*. Harmondsworth: Penguin.

16. Moss, P (1987) A Review of Childminding Research, Llundain: Uned Ymchwil Thomas Coram.

17. Owen, S (2000) Assessing quality in childminding, *Children and Society*, Cyfrol.14, 147-153.

18. Phillips, DA, Howes, C and Whitebook, M (1992), The social policy context of child care: effects on quality, *American Journal of Community Psychology*, 20(1), 25-51.

19. Mooney, A a Munton, AG (1997) *Research and Policy in Early Childhood Services: Time for a New Agenda*. Yr Athrofa Addysg: Llundain.

20. Elfer, P a Beasley, G (1996) *A Law Unto Themselves? A Survey of Appeals and Prosecutions under Part X of the Children Act 1989, Concerning Childminding and Day Care provision*, Llundain, Biwro Cenedlaethol y Plant.

21. Cymdeithas Genedlaethol Gwarchodwyr Plant (NCMA) *NCMA's Safonau Ansawdd* http://www.ncma.org.uk/erol.html [1 Hydref 2002].

22. Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol (2000) *Who's Looking after the Children? Inspection of Registration and Inspection Arrangements for Under Eights Day Care Services*, Llundain: Yr Adran Iechyd.

23. Moss, P, Owen, C, Statham, J, Bull, J a Cameron, C (1995) *A Study of Day Care Providers in England and Wales*, Llundain: Uned Ymchwil Thomas Coram.

24. Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol (1994) Signposts: *Findings from a National Inspection of Private Fostering*, Llundain: Yr Adran Iechyd.

25. Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol (2002) *By Private Arrangement: Inspection of Arrangements for Supervising Children in Private Care*, Llundain: Yr Adran Iechyd.

26. Yr Adran Iechyd a'r Swyddfa Gymreig (1997) *People Like Us: The Report of the Review of the Safeguards for Children Living away from Home (The Utting Report)*, Llundain. Llyfrfa Ei Mawrhydi.

27. Philpot, T (2001) *A Very Private Practice: An Investigation into Private Fostering*, Llundain: BAAF.

28. Sellick, C a Thoburn, J (2002) Family placement services, in McNeish, D, Newman, T and Roberts, H. *What Works for Children?* Milton Keynes: Gwasg y Brifysgol Agored.

29. Batty, D (1995) *Other People's Children. A Guide for Private Foster Carers*. Llundain: Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain.

30. Batty, D a Wrighton, P (1996) *A Guide for Birth Parents Considering Private Fostering*. Llundain: Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain.

31. Cymdeithas Ymarferwyr ac Ymwelwyr Iechyd Cymunedol (CPHVA) (1999) Special Interest Group for Private Fostering, *Good Practice Procedures*, http://www.msfcphva.org [1 Hydref 2002].

32. Haynes, G (2000) National standards on registered childminding, *Childright*, 170, 21.

33. Cymdeithas Genedlaethol Gofal Maeth (NFCA) (1999) *National Standards for Foster Care*, Llundain: NFCA.

34. Y Rhwydwaith Maethu (FN – olynydd NFCA) (2002) *Rheoliadau Safonau Gofynnol Cenedlaethol,* http://www.thefostering.net/comdir/cditem.cfm?NID=32 [3 Chwefror 2003].

35. African Family Advisory Service (AFAS) (1997) *Private Fostering: Development and Practice in Three English Counties*, Llundain: Achub y Plant.

36. Uned Cydraddoldeb Hiliol (REU) (1993) *Black Children and Private Fostering*, Llundain: Uned Cydraddoldeb Hiliol.

37. Woollard, C (1991) Private fostering – a health concern, *Adoption and Fostering*, 15, 3, 54-58.

38. Atkinson, C a Horner, A (1990) Private fostering – legislation and practice, *Adoption and Fostering*, 14, 3, 17-22.

39. Calder, S a Maclean, J (1982) *Private Fostering in Lambeth*, Cyfrol 6, Rhifyn 2, 16-18.

40. Ellis, J (1977) Differing conceptions of a child's needs: Some implications for social work with West African children and their parents, *British Journal of Social Work*, Cyfrol 7, Rhifyn 2, 155-171.

41. Holman, B (1973) *Trading in Children*, Llundain: Routledge & Kegan Paul.

42. Olusanya, B and Hodes, D (2000) West African children in private foster care in City and Hackney. *Child Care Health and Development*, 26 (4), 337-342.

43. Ayotte, W (2000) Separated Children Coming to Europe, Llundain: Achub y Plant.

44. Africans Unite Against Child Abuse (AFRUCA) (2001) Afruca yn mynegi pryder am gludo plant Affricanaidd i'r DU ar gyfer gwaith domestig, *datganiad i'r wasg dydd Sadwrn 27 Gorffennaf 2002*, http://www.abusemuststop.org/press-re5.html [19 Awst 2002].

Atodiad 1:
Ymgynghoriad SCIE

Cofrestru gwarchodwyr plant a'i oblygiadau o ran maethu preifat
Trafodaeth Uned Ymchwil Thomas Coram, Yr Athrofa Addysg, 1 Awst 2002

Charlie Owen,
Uwch swyddog ymchwil,
Uned Ymchwil Thomas Coram

Edwina Peart,
Swyddog ymchwil,
Uned Ymchwil Thomas Coram

Ann Mooney,
Uwch swyddog ymchwil
Uned Ymchwil Thomas Coram

Atodiad II:
Ymgynghoriad SCIE

Cofrestru gwarchodwyr plant a'i oblygiadau o ran maethu preifat.
Trafodaeth bord gron, 15 Awst 2002

Angus Geddes,
Swyddog datblygu maethu
Cyngor Bwrdeistref Swindon

Beverley Clarke,
Ymgynghorydd tîm,
Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Lambeth (Llundain

Bob Holman,
Gweithiwr ymchwil,
Glasgow

Brendan McGrath,
Cydlynydd maethu preifat,
Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Swydd Gaerloyw

Brian Brannen,
Cydlynydd prosiect,
Prosiect N'Deagainsia, Plymouth

Charlie Owen,
Uwch swyddog ymchwil,
Uned Ymchwil Thomas Coram

Debbie Ariyo,
Cyfarwyddwr,
Africans Unite Against Child Abuse (AFRUCA)

Edwina Peart,
Swyddog ymchwil,
Uned Ymchwil Thomas Coram

Marcia Spencer.
Hyfforddwr annibynnol,
TALAWA ymgynghoriaeth a hyfforddiant gwaith cymdeithasol

Pete Wrighton,
Ymgynghorwr hyfforddiant,
Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain (BAAF)

Cyfraniad ysgrifenedig:
Shokat Babul,
Aelod o fwrdd SCIE a phrif weithredwr,
Cartrefi Nyrsio Plasgeller

Am wybodaeth bellach cysylltwch â
Dr Lisa Bostock
Uwch ddadansoddydd ymchwil
lisa.bostock@scie.org.uk

Mae fersiynau Saesneg, Braille, tâp, print bras a hawdd i'w deall o'r papur hwn ar gael ar gais.



Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth
Gwell arfer ar sail gwell gwybodaeth

Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth
1st Floor, Goldings House,
2 Hay's Lane, Llundain SE1 2HB

Ffôn: 020 7089 6840
Ffacs: 020 7089 6841
www.scie.org.uk